**PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD**

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 4 Ebrill 2001 |
| Amser: | 9.00 a.m. |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Teitl: OPSIYNAU AR GYFER GWEITHGARWCH Y PWYLLGOR YN Y DYFODOL**

**Diben**

1.Gwahodd aelodau'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd i ystyried i ba gyfeiriad y gallai gweithgarwch y Pwyllgor fynd yn y dyfodol.

**Cefndir**

2.Ar 30 Tachwedd 2000 ystyriodd y Pwyllgor bapurau a gyflwynwyd gan Blaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol ar sut y gallai'r Pwyllgor ddatblygu ei rôl yn ddefnyddiol. Mewn ymateb i'r drafodaeth honno darparodd swyddogion bapur a gafodd ei ystyried ar 31 Ionawr 2001. Ar yr adeg honno gwnaeth y Pwyllgor gais am bapur arall yn amlinellu'r opsiynau ar gyfer gwaith yn y dyfodol.

**Rôl y Pwyllgor**

3.Gellir rhannu'r rôl a roddwyd i'r Pwyllgor yn y rheolau sefydlog i'r categorïau canlynol:

- Adolygu perthynas y Cynulliad a'r Undeb Ewropeaidd (Rheol Sefydlog 15.1 (i) a (ii));
- Adolygu perthynas y Cynulliad ag UKRep a Llywodraeth y Deyrnas Unedig (Rheol Sefydlog 15.1 (ii));
- Monitro effaith gyffredinol a chanlyniadau polisïau'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer Cymru (Rheol Sefydlog 15.2);
- Adolygu dulliau'r Cynulliad o ymdrin â materion sy'n ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd (Rheol Sefydlog 15.2);
- Tynnu sylw pwyllgorau pwnc at faterion penodol yr Undeb Ewropeaidd (Rheol Sefydlog 15.3);
- Argymell sut y dylai'r Cynulliad ymateb i weithgarwch yr Undeb Ewropeaidd sy'n dod o fewn cylch gwaith mwy nag un pwyllgor pwnc (Rheol Sefydlog 15.3);
- Adrodd yn ôl i'r Cynulliad ar yr uchod o bryd i'w gilydd (Rheol Sefydlog 15.5).

4.Er y mynegwyd diddordeb yn y Pwyllgor i alw ar y weithrediaeth i roi cyfrif am y modd y mae'n ymdrin â materion Ewropeaidd, cydnabyddir bod strwythur y Pwyllgor, gyda Phrif Weinidog Cymru fel Cadeirydd, yn ei wneud yn fwy addas fel fforwm cydlynu yn hytrach nag archwiliad gan y weithrediaeth. Cydnabu'r Pwyllgor hefyd fod maint y ddeddfwriaeth a'r wybodaeth arall sy'n dod o Ewrop yn rhy fawr i'r Pwyllgor eu harchwilio'n systematig, yn arbennig o ystyried nad yw llawer o'r deunydd yn berthnasol i Gymru.

5.Roedd y Pwyllgor yn cytuno'n fras y dylai'r Pwyllgor ganolbwyntio ei sylw ar:

- monitro'r mecanweithiau y mae Cymru'n eu defnyddio i drafod a hyrwyddo ei buddiannau yn Ewrop a hybu mentrau newydd yn ôl y gofyn;
- cyfrannu at safbwynt Cymreig ar faterion Ewropeaidd strategol; a
- sicrhau y rhoddir sylw i faterion Ewropeaidd perthnasol yng Nghymru drwy roi gwybod i'r pwyllgorau pwnc, codi pryderon gyda'r weithrediaeth a bod amrywiol sectorau cymunedau Cymru yn meithrin cysylltiadau ag Ewrop.

**Ymdrin â materion a godwyd yn y cyfarfod blaenorol**

6.Yn y cyfarfod ar 31 Ionawr 2001, ymhlith y pryderon a godwyd yngln â gweithrediad y pwyllgor roedd:

- yr angen i hysbysu'r Pwyllgor o faterion sy'n codi yn yr agenda Ewropeaidd mewn pryd i hwyluso ymateb effeithiol gan y

Cynulliad;

- effeithiolrwydd cysylltu a chydlynu materion gyda'r pwyllgorau pwnc;
- atgyfnerthu'r cysylltiad â chynrychiolwyr Cymru yn Ewrop, yn fwyaf arbennig gydag aelodau Cymru o Senedd Ewrop;
- a ddylid ehangu cylch gwaith y Pwyllgor i gynnwys materion allanol.

Ymwybyddiaeth o'r agenda Ewropeaidd

7.Sefydlodd y Pwyllgor ystod o ffynonellau gwybodaeth ar yr agenda Ewropeaidd, gan gynnwys edrych ar Flaenoriaethau Llywyddu, Rhaglenni Gwaith y Comisiwn a chasgliadau'r Cyngor ac adroddiadau o Swyddfa'r Cynulliad ym Mrwsel a'r Undeb Ewropeaidd wedi'i Ehangu. Mae presenoldeb cynrychiolwyr ar y Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol a chynrychiolwyr ar Bwyllgor y Rhanbarthau, Cynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru, ac aelodau Cymru yn Senedd Ewrop hefyd yn helpu i roi gwybod i'r pwyllgor am yr agenda Ewropeaidd ac i dynnu sylw at faterion o ddiddordeb penodol. Mae Prif Weinidog Cymru fel Cadeirydd y Pwyllgor hefyd yn ffynhonnell hanfodol o wybodaeth am weithgareddau Cymru o fewn maes Ewrop.

8.Amlinellir ffyrdd posibl eraill i'r Pwyllgor gael ei hysbysu o agenda'r Undeb Ewropeaidd isod.

*Cysylltu â phwyllgorau seneddol eraill*

9.Gallai'r Pwyllgor ddatblygu ymhellach ei gysylltiadau â phwyllgorau seneddau eraill y Deyrnas Unedig drwy nodi eu hagendâu a'u hadroddiadau, gwneud argymhellion i'w hymholiadau a gweithio ar y cyd ar faterion sy'n destun pryder cyffredin. Gall gwaith y pwyllgorau hyn helpu i dynnu sylw at faterion sy'n destun pryder i Gymru a dod â hwy gerbron y Pwyllgor Materion Ewropeaidd. Gall buddiannau sy'n gyffredin hefyd olygu cydweithio drwy rannu gwybodaeth neu ddatblygu safbwynt cyffredin. Er enghraifft, mae Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Ty'r Arglwyddi ar hyn o bryd yn ymchwilio i'r achos am gael Ail Siambr i Senedd Ewrop. Efallai bod y Pwyllgor Materion Ewropeaidd yn dymuno cyflwyno safbwyntiau i'r ymchwiliad hwnnw neu dderbyn yr adroddiad terfynol er budd i'w ystyriaethau ei hun.

10.Mae cylchoedd gwaith amrywiol pwyllgorau seneddol Ewropeaidd yn y Deyrnas Unedig yn gwneud y pwyllgorau hyn yn ffynhonnell wybodaeth gyfoethog bosibl. Er bod y pwyllgorau hyn yn cynhyrchu nifer sylweddol o bapurau, maent yn canolbwyntio ar ddeunydd sy'n werth ei nodi a gellir yn hawdd dethol pynciau o ddiddordeb i aelodau.

11.Mae **Pwyllgor Archwilio Ewropeaidd Ty'r Cyffredin** yn cyflwyno adroddiad ar bwysigrwydd cyfreithiol a gwleidyddol pob un o ddogfennau'r Undeb Ewropeaidd. Cyflwynodd 27 o adroddiadau yn ystod 2000, a chafodd pob adroddiad achos i wneud sylwadau ar rhwng tua 10 i 50 o ddogfennau.

12.Mae **Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Ty'r Arglwyddi** wedi ffurfio 6 is-bwyllgor i ystyried meysydd pwnc penodol. Er bod pob un o ddogfennau'r Undeb Ewropeaidd yn dal i gyfeirio at y Pwyllgor, dim ond pan ystyrir ei bod yn briodol y cynhelir ymchwiliad ac ar ôl i Gadeirydd y Pwyllgorau ddethol y dogfennau pwysicaf i'r is-bwyllgorau. Cyflwynodd y Pwyllgor 20 o adroddiadau yn ystod 2000.

13.Cylch gwaith **Pwyllgor Ewropeaidd yr Alban** yw ystyried ac adrodd yn ôl ar: cynigion ar gyfer deddfwriaeth Cymunedau Ewropeaidd; gweithredu deddfwriaeth Cymunedau Ewropeaidd; ac unrhyw fater sy'n ymwneud â Cymunedau Ewropeaidd neu'r Undeb Ewropeaidd. Cyflwynodd y Pwyllgor saith o adroddiadau yn 2000 a chylchlythyr chwarterol. Ystyriodd hefyd ddogfennau'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer ymchwiliad pellach, eu cyfeirio at bwyllgor arall, neu gamau dilynol eraill.

14.Mae gan **Bwyllgor Canol Cynulliad Gogledd Iwerddon** gylch gwaith eang sy'n cyfateb i gyfrifoldebau Prif Weinidog Cymru a Dirprwy Brif Weinidog Cymru, gan gynnwys Materion Ewropeaidd a Materion Rhyngwladol.

*Adroddiadau Swyddfa'r Cynulliad ym Mrwsel*

15.Mae Swyddfa'r Cynulliad ym Mrwsel yn cynhyrchu cylchlythyr deufisol sy'n rhoi trosolwg byr o'r gweithgarwch ym maes Ewrop sydd naill ai yn ymwneud â'r Cynulliad neu'n effeithio arno. Mae'r cylchlythyr yn amlygu gweithgarwch diweddar Cymru yn Ewrop ac yn tynnu sylw at faterion sydd ar fin cael eu hystyried. Bydd presenoldeb Pennaeth y swyddfa honno yng nghyfarfodydd y Pwyllgor yn caniatáu cwestiynau dilynol ar unrhyw eitemau yn y cylchlythyr ac adborth ar sgôp ei gynnwys.

*Ffynonellau gwybodaeth eraill*

16.Bydd ffurfioli cysylltiadau â’r is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol a’r is-adrannau polisi a’r pwyllgorau pwnc yn cynyddu’r ymwybyddiaeth o’r agenda Ewropeaidd ar draws y Cynulliad. Trafodir hyn yn fanylach isod. Gellir cael mwy o ddealltwriaeth o’r agenda Ewropeaidd hefyd gan y Pwyllgor sy’n cynnal ymchwiliad mwy manwl i fater strategol penodol megis llywodraethu neu ehangu. Rhoddir mwy o sylw i’r mater hwn hefyd yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

Cydlynu â’r pwyllgorau pwnc

17.Ymhlith y newidiadau a allai wella’r modd y mae pwyllgorau’r Cynulliad yn cydlynu’r gwaith o ymdrin â materion Ewropeaidd a’r cysylltiad rhwng y Pwyllgor Materion Ewropeaidd a’r pwyllgorau pwnc y mae’r canlynol:

- penodi cofnodwr ar gyfer pob pwyllgor pwnc;
- darparu crynodeb ar gyfer y Pwyllgor Materion Ewropeaidd o’r materion sydd i ddod o raglen waith y Comisiwn, gan nodi materion y byddai pob pwyllgor pwnc yn dymuno eu hystyried wrth baratoi ei flaenraglen waith. Byddai’r Pwyllgor yn tynnu’r materion hyn at sylw’r pwyllgorau pwnc perthnasol;
- y Cynulliad i ofyn i bob pwyllgor pwnc gynnwys adran ar faterion Ewropeaidd yn eu hadroddiad ar gynnydd Rheol Sefydlog 9.9;
- diwygio Rheol Sefydlog 15.3 i ganiatáu i’r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ystyried mater o fewn cylch gwaith pwyllgor pwnc unigol gyda chaniatâd y pwyllgor hwnnw;
- gwahodd cadeiryddion y pwyllgorau pwnc i drafod y ffordd yr ymdrinnir â materion Ewropeaidd gyda’r Pwyllgor Materion Ewropeaidd, naill ai yn gyfnodol neu wrth i faterion sy’n destun pryder godi.

18. Mae Rheol Sefydlog 15.4 yn ei gwneud yn ofynnol i’r Cynulliad "ystyried pa mor ddymunol y byddai i bob pwyllgor pwnc gael ei gynrychioli ar y Pwyllgor[ Materion Ewropeaidd]". Mae hyn yn mynegi bwriad mewn rheolau sefydlog y dylai fod cysylltiad rhwng y pwyllgorau pwnc a’r Pwyllgor Materion Ewropeaidd drwy rannu aelodaeth. Dylid ffurfioli’r llinell gyswllt hon drwy benodi cofnodwr o bob pwyllgor pwnc a allai gyflwyno adroddiadau i’r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ar ddatblygiad materion Ewropeaidd yn eu pwyllgor pwnc a rhoi gwybod i’w pwyllgor am faterion a godwyd yn y Pwyllgor Materion Ewropeaidd. Drwy ffurfioli rôl y cofnodwr, gellir gwneud darpariaeth o fewn trafodion y pwyllgorau bod y cofnodi hyn yn digwydd. Mae’r cynnig hwn yn wynebu un rhwystr, sef nad yw aelod o’r Pwyllgor Materion Ewropeaidd yn aelod o’r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol neu’r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai. Fodd bynnag, bydd ffurfioli rôl y cofnodwr yn dal i gynyddu’r cysylltiad â’r pwyllgorau hynny y mae’r Pwyllgor Materion Ewropeaidd yn rhannu aelodaeth â hwy a bydd yn amlygu’r angen am draws-aelodaeth yn y dyfodol.

19. Mae archwilio a monitro deddfwriaeth Ewropeaidd arfaethedig yn digwydd o fewn yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol a’r is-adrannau polisi perthnasol. Mae’r is-adrannau hyn yn codi materion sy’n destun pryder gyda’r pwyllgorau pwnc perthnasol drwy naill ai’r Gweinidog neu’r Cadeirydd. Gellid atgyfnerthu’r trefniadau hyn drwy gyflwyno gweithdrefn lle byddai Prif Weinidog Cymru yn cyflwyno adroddiad i’r Pwyllgor Materion Ewropeaidd yn dilyn rhyddhau rhaglen waith y Comisiwn sy’n nodi materion o bwys posibl o fewn cyfrifoldeb pob Gweinidog yn y Cynulliad. Yna gallai’r Pwyllgor dynnu materion penodol at sylw’r pwyllgorau pwnc perthnasol a’u gwahodd i ystyried cynnwys y rhain yn eu blaenraglenni gwaith. Efallai y gwelir y bydd angen adroddiadau ad hoc ychwanegol hefyd wrth i faterion eraill godi drwy’r flwyddyn.

20. Mae Rheol Sefydlog 9.9 yn ei gwneud yn ofynnol i bob pwyllgor pwnc gyflwyno adroddiad o bryd i’w gilydd ar ei gynnydd wrth gyflawni ei raglen waith flynyddol. Byddai cynnwys yn yr adroddiadau hyn adran ar y cynnydd a wnaeth y pwyllgor wrth ymdrin â materion Ewropeaidd yn amlygu’r gwaith a wnaed gan y pwyllgorau i ymdrin â’r agenda Ewropeaidd ac yn sicrhau na fyddai ystyriaeth o faterion Ewropeaidd yn cael ei hanwybyddu.

21. Gellid gwella’r cysylltiad â phwyllgorau pwnc drwy wahodd cadeiryddion y pwyllgorau hynny i siarad â’r Pwyllgor Materion Ewropeaidd am eu gwaith mewn perthynas â materion Ewropeaidd. Gallai trafodaethau o’r fath amlygu i’r Pwyllgor Materion Ewropeaidd y cyd-destun a’r cyfyngiadau y mae’r pwyllgorau pwnc yn gweithio oddi mewn iddynt a helpu i roi gwybod i’r Cadeirydd am y cyd-destun Ewropeaidd ehangach. Pe gwnaed hyn mewn trefn, gan wahodd un Cadeirydd i fod yn bresennol ymhob cyfarfod o’r Pwyllgor Materion Ewropeaidd, byddai’n cadw’r Pwyllgor Materion Ewropeaidd yn hysbys o’r materion Ewropeaidd sy’n berthnasol i’r holl bwyllgorau. Ar y llaw arall, efallai yr ystyrir ei bod yn fwy effeithiol gwahodd cadeiryddion penodol pan roddir sylw i fater perthnasol o bwys, megis gwahodd Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd pan ystyrir strategaethau i ymrwymo aelod-wladwriaethau newydd posibl yn yr Undeb Ewropeaidd.

22. Efallai y bydd trafodaethau â chadeiryddion pwyllgorau pwnc yn nodi materion o fewn cylch gwaith y pwyllgor pwnc sy’n

gymharol bwysig i faterion Ewropeaidd ond y mae’r pwyllgor pwnc yn dewis peidio â’u trafod â’u hyrwyddo oherwydd blaenoriaethau uwch yn ei raglen waith. Mewn amgylchiadau o’r fath, byddai Rheol Sefydlog 15.3 yn darllen fel pe bai’n hepgor ystyriaeth o’r mater gan y Pwyllgor Materion Ewropeaidd hyd yn oed pe na fyddai’r Pwyllgor yn dyblygu unrhyw waith gan y pwyllgor pwnc os ystyrid y mater. Byddai diwygio’r Rheol Sefydlog honno a oedd yn caniatáu i’r pwyllgor pwnc perthnasol awdurdodi’r Pwyllgor Materion Ewropeaidd i ystyried mater o fewn cylch gwaith y pwyllgor pwnc yn galluogi’r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ymdrin â’r mater tra’n osgoi dyblygu diangen.

<u>Cyfarfod ag Aelodau Senedd Ewrop</u>

23. Ychydig o aelodau Cymru yn Senedd Ewrop sydd wedi derbyn gwahoddiad sefydlog y Pwyllgor i fynychu ei gyfarfodydd. Y prif reswm dros hyn yw bod Senedd Ewrop a’i bwyllgorau a’i grwpiau yn eistedd o ddydd Llun i ddydd Iau. Ni fyddai’n rhesymol disgwyl i ASE esgeuluso eu dyletswyddau seneddol er mwyn cyfarfod â’r Pwyllgor felly yr opsiynau ar gyfer cyfarfod ag ASE yw trefnu cyfarfodydd yn ystod toriad Senedd Ewrop, sydd fel rheol yn cyd-fynd â thoriad y Cynulliad, neu drefnu cyfarfodydd ar ddydd Gwener. Efallai y byddai hefyd yn bosibl cyfarfod ag ASE drwy gyfarfod ym Mrwsel ar adegau rhwng dyletswyddau Senedd Ewropeaidd yr ASE, fodd bynnag, gall fod yn anodd dod o hyd i amser cyfleus a byddai hyn yn ychwanegu at y pwysau logistaidd a’r pwysau o ran amser ar aelodau a swyddogion y Cynulliad.

<u>Materion Allanol</u>

24. Mae creu Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol newydd o staff yr Is-adran Materion Ewropeaidd a Thîm Cysylltiadau Rhyngwladol yr Is-adran Datblygu Diwydiannol yn codi’r cwestiwn a ddylai’r Pwyllgor geisio ehangu ei gylch gwaith i gyd-fynd â gwaith yr Is-adran newydd.

25. Bydd yr is-adran newydd yn cwmpasu:

- goruchwylio’r cysylltiadau rhwng y Cynulliad a Chymru a sefydliadau’r Undeb Ewropeaidd (gan gynnwys cyfrannu at wneud polisïau’r Undeb Ewropeaidd, Swyddfa Brwsel, gweithredu Cyfarwyddebau, cysylltu â Whitehall ar faterion yr Undeb Ewropeaidd, cryfhau ymwybyddiaeth y Cynulliad o’r Undeb Ewropeaidd / cysylltiadau’r Cynulliad â’r Undeb Ewropeaidd, ac ati)
- rheoli’r cysylltiadau rhwng llywodraeth a llywodraeth a chysylltiadau eraill â gwledydd, rhanbarthau a sefydliadau tramor (gan gynnwys Four Motors, Cynhadledd Llywyddion Rhanbarthau â Phwerau Deddfwriaethol, AER/CPMR, a datblygu cysylltiadau dwyochrog gyda meysydd penodol yn Nwyrain Ewrop).
- cynnal y cysylltiadau presennol gyda rhanbarthau nad ydynt yn yr Undeb Ewropeaidd (e.e. De Cymru Newydd, Ontario) a chryfhau’r cysylltiadau hyn.
- codi proffil rhyngwladol Cymru (datblygu cysylltiadau/ pecyn marchnata, digwyddiadau tramor ac ati).

26. Byddai newid o’r fath yng nghylch gwaith y Pwyllgor yn ychwanegu materion sy’n ymwneud â meithrin cysylltiadau â gwledydd y tu allan i’r Undeb. I raddau byddai hyn yn estyniad naturiol o waith y Pwyllgor ar ehangu lle bu’n edrych ar opsiynau i estyn y cysylltiadau economaidd a chymdeithasol â gwledydd sydd ar hyn o bryd y tu allan i’r Undeb. Ni fyddai’n fwriad bod newid o’r fath yn lleihau rôl presennol y Pwyllgor mewn unrhyw ffordd mewn perthynas ag Ewrop ond byddai’n rhoi cyfle i’r Pwyllgor, ar y cyd â’r Is-adran newydd, gynorthwyo gyda datblygiad cysylltiadau y tu allan i’r Undeb Ewropeaidd.

**Materion posibl i’w hystyried yn fanwl gan y Pwyllgor**

27. Yn ogystal â’r ymagweddau a amlinellwyd uchod, efallai y byddai’r Pwyllgor yn dymuno datblygu ei rolau wrth gyfrannu at safbwynt Cymreig ar faterion Ewropeaidd strategol drwy roi ystyriaeth fwy manwl o faterion penodol o fewn cylch gwaith y Pwyllgor a meithrin dadl ar y materion hynny o fewn Cymru. Gellid gwneud hyn drwy gyflwyno papurau trafodaeth neu drwy wahodd sylw ysgrifenedig neu lafar gan y gymuned, grwpiau â buddiannau ac arbenigwyr i helpu nodi buddiannau Cymru ar fater. Yna gallai’r Pwyllgor gyflwyno adroddiad o gasgliadau ei drafodaethau i’r Cynulliad.

28. Gallai materion y byddai’r Pwyllgor yn eu hystyried ar gyfer ystyriaeth fanwl o’r fath gynnwys:

- ystyriaeth llywodraethu y Comisiwn Ewropeaidd;

- ymateb Cymru i ehangu’r Undeb Ewropeaidd; a
- goblygiadau posibl arian sengl Ewrop.

29. Mae’r Comisiwn Ewropeaidd yn cynnal ymgynghoriad sylweddol ar ddulliau newydd o lywodraethu gan arwain at y Gynhadledd Rynglywodraethol yn 2004, pan gaiff y *Papur Gwyn ar Lywodraethu Ewropeaidd* ei ryddhau ym mis Gorffennaf eleni. Bydd y papur yn cynnwys trafodaethau ar oblygiadau’r llywodraethu aml-lefel sy’n datblygu a phwysigrwydd cynyddol llywodraethau ar lefel is-genedlaethol. Efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno rhoi ystyriaeth fanwl i’r drafodaeth ar sut y bydd systemau gwahanol o lywodraethu yn effeithio ar Gymru, gan hwyluso’r drafodaeth honno.

30. Mae gan ehangu’r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol oblygiadau ar gyfer Cymru o safbwynt ei chynrychiolaeth o fewn yr Undeb yn y dyfodol, yr addasu canlyniadol o ran llywodraethu, sefyllfa Cymru i fanteisio ar y cyfleoedd o’r farchnad sengl estynedig a’r newidiadau o ran cyllid o fewn Ewrop.

31. Efallai y bydd y Comisiwn yn dymuno rhoi ystyriaeth fanwl i oblygiadau arian sengl Ewrop ar gyfer Cymru fel y bydd Cymru yn barod am y newidiadau a ddaw yn sgil yr arian sengl ac er mwyn amlygu buddiannau Cymru mewn unrhyw ddadl yngln ag a ddylai’r Deyrnas Unedig ymuno.

**Cynigion i’w hystyried gan y Pwyllgor**

32. Argymhellir y dylai’r Pwyllgor gytuno:

(1) a ddylai aelodau gael copïau o agendâu, adroddiadau a hysbysiadau o ymholiadau gan bwyllgorau seneddol Ewropeaidd eraill y DU;

(2) i enwebu cofnodwr i fod yn gyswllt rhwng y Pwyllgor a phob pwyllgor pwnc;

(3) i ofyn i Brif Weinidog Cymru gyflwyno adroddiadau blynyddol ac ad hoc i’r Pwyllgor yn dilyn rhyddhau rhaglen waith y Comisiwn Ewropeaidd yn nodi materion o bwys posibl yn disgyn o fewn cyfrifoldeb pob Gweinidog yn y Cynulliad;

(4) i argymell bod y Cynulliad yn gofyn i’r pwyllgorau pwnc gynnwys adroddiad ar faterion Ewropeaidd o fewn eu hadroddiadau cynnydd;

(5) i wahodd cadeiryddion pwyllgorau pwnc yn gyfnodol neu yn unswydd i drafod y modd y maent yn ymdrin â materion Ewropeaidd;

(6) i argymell y diwygiad i Reol Sefydlog 15.3 i alluogi’r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ystyried mater o fewn cylch gwaith pwyllgor pwnc unigol gyda chaniatâd y pwyllgor hwnnw;

(7) i geisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Busnes i gyfarfod ar ddydd Gwener o leiaf unwaith y flwyddyn i hwyluso presenoldeb aelodau o Senedd Ewrop;

(8) i argymell diwygio Rheolau Sefydlog i gynyddu cylch gwaith y Pwyllgor i gynnwys materion allanol.

(9) i drafod a hyrwyddo unrhyw fater i’w ystyried yn fwy manwl, p’un ai drwy gyflwyno adroddiad neu bapur trafodaeth, a ph’un ai gyda chymorth grp gwaith neu is-bwyllgor neu fel arall. Gellir cynnwys y materion canlynol ar gyfer ystyriaeth bellach:

(a) llywodraethu Ewropeaidd a phapur gwyn y Comisiwn,

(b) ehangu

(c) goblygiadau arian sengl Ewrop;